# Adroddiad Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg

**Aelodau'r Ymchwiliad**
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Beth Lawton
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths
Y Cynghorydd Eirwyn Williams
Y Cyn-gynghorydd R H Wyn Williams (Cyn-gadeirydd)
Y Cyn-gynghorydd Hefin Williams

**Swyddogion**
Vera Jones (Swyddog Arweiniol)
Arwel E Jones (Cyn-swyddog Arweiniol)
Glynda O'brien (Swyddog Cefnogol)
Sioned Williams (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd
LL55 1SH

Hydref 2017

**Cynnwys**


| **Yr Adroddiad** | **Tudalen** |
|---|---|
| 1. Cyd-destun | 3 |
| 2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu | 4 |
| 3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad | 4 |
| 4. Prif Ganfyddiadau | 6 |
| 5. Argymhellion yr Ymchwiliad | 9 |
| **Yr Atodiadau** | |
| Atodiad 1 – Cwestiynau Aelodau'r Ymchwiliad ar gyfer yr ymweliadau ysgol | 13 |
| Atodiad 2 – Crynodeb o'r prif negeseuon a ddaeth o'r ymweliadau gydag ysgolion | 14 |
| Atodiad 3 – Cwestiynau ar gyfer herio pellach ar waith Cynnal | 16 |
| Atodiad 4 – Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cyngor Gwynedd â Cynnal (2017/18) | 18 |
| Atodiad 5 – Cwestiynau a anfonwyd i Awdurdodau Addysg eraill Cymru am eu gwasanaethau cefnogol | 24 |

1. **Cyd-destun**

1.1 Mae gan yr Awdurdod Addysg gyfrifoldebau eang i ddarparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer prif ddarparwyr addysg y sir ar gyfer ein plant, ein ysgolion cynradd, uwchradd ac arbenigol. Mae hynny mewn meysydd fel gwasanaethau ymgynghorol ar gyfer cynghori a gwella, anghenion addysgol arbennig a chynhwysiad ynghyd â gwasanaethau cefnogol eraill.

1.2 Mae gan yr Awdurdod Addysg gyllideb o £17.872m heb ei ddatganoli i ysgolion ar gyfer cyfarfod â'r cyfrifoldebau hyn ac mae'r cyllidebau hyn o dan bwysau dirfawr o ran y galw am wasanaeth a hefyd y pwysau i grebachu cyllidebau oherwydd yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Bu'r Ymchwiliad hefyd yn ystyried gwasanaethau cefnogol addysg eraill oddi fewn y £71.313m sydd wedi'i ddatganoli i ysgolion ond y mae ysgolion yn eu prynu yn ôl gan yr Awdurdod.

1.3 Fe wnaeth ymchwiliad craffu blaenorol, sef yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg adnabod yr angen i ddiffinio beth yw rôl yr Awdurdod Addysg o ran safon Addysg ac, yn benodol, sefydlu dealltwriaeth o'r cyswllt rhwng yr Awdurdod ac ysgolion yn y maes ansawdd.

1.4 Fe wnaeth yr Ymchwiliad hwnnw, y cafodd ei argymhellion dderbyniad gwresog, gadarnhau mai'r hyn sy'n allweddol i ansawdd addysg yw'r hyn sy'n digwydd yn y dosbarth. Fodd bynnag, roedd hefyd yn pwysleisio bwysigrwydd elfennau y "tu allan i'r dosbarth" i gefnogi hynny, er engraifft, materion fel arweinyddiaeth ysgol. Mae modd i elfennau o waith ysgol "y tu allan i'r dosbarth" lesteirio natur ac ansawdd y dysgu.

1.5 Felly, mae gan yr hyn sy'n digwydd y tu allan i'r dosbarth ddylanwad sylweddol, cadarnhaol neu negyddol, ar brofiadau disgyblion ac, yn sgil hynny, ar eu gallu i ddatblygu a chyflawni eu potensial. Mae'n allweddol felly bod yr Awdurdod Addysg mor sicr ag sy'n bosib bod yr hyn sydd yn ei le i gefnogi gwaith ar lawr gwlad yn yr ysgolion yn gwneud hynny, ac nid yn gosod baich ychwanegol sydd yn milwrio yn erbyn y ddarpariaeth yn y dosbarth.

1.6 Y cefndir i'r Ymchwiliad hwn yw awydd pendant iawn i sicrhau bod y gwasanaethau cefnogol a ddarperir i'r ysgolion yn cynnig yr hyn sydd ei angen i gefnogi dysgu o ansawdd ar lawr gwlad ac yn darparu gwerth am arian ar adeg pan y mae adnoddau yn brin.

1.7 Er mwyn gwneud hynny, bu i'r Ymchwiliad ganolbwyntio ar brif ffynonellau y gwasanaethau cefnogol hynny, gan bwyso a mesur y rhesymeg y tu ôl i'r ddarpariaeth ac yna gofyn cwestiynau am addasrwydd y ddarpariaeth ar gyfer gofynion presennol ac i'r dyfodol, er lles y disgyblion o fewn y gyfundrefn addysg.

## 2 Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

2.1 Cytunodd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, sydd wedi ei olynu bellach gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, i'r sgôp ar gyfer yr Ymchwiliad a oedd yn nodi'r canlynol:-

2.2 Yn y lle cyntaf, nodwyd y byddai'r Ymchwiliad yn ceisio sefydlu dealltwriaeth ynglyn â :

- Beth yw'r disgwyliadau (statudol ac eraill) ar yr Awdurdod Addysg yn y meysydd cefnogol amrywiol
- Pwy sydd yn darparu'r gwasanaethau yma a sut mae'r cyngor yn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer ein plant ac ysgolion?
- Pa anghenion y mae'r Awdurdod yn ceisio eu cyfarch yn y meysydd hyn ac i ba raddau y mae trefniadau presennol yr Awdurdod yn cyflawni hynny
- Y cyswllt rhwng y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu ac anghenion disgyblion y sir
- Pa heriau y mae'r Awdurdod yn ei wynebu wrth ddarparu'r gwasanaethau cefnogol hyn yn awr ac i'r dyfodol
- Beth yw trefniadau presennol yr Awdurdod yn y meysydd hyn a beth yw'r ymarfer da mewn ardaloedd eraill ar gyfer darparu gwasanaethau yn y meysydd hyn

2.3 Wedyn, nodwyd y byddai'r Ymchwiliad yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:-

- Pa fath o newidiadau, os o gwbl, sydd ei angen yn y gwasanaethau, er mwyn iddynt gyflawni eu pwrpas a bod yn gynaliadwy i'r dyfodol
- Pa fodelau posib eraill sydd ar gael ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn?

## 3 Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad

3.1 Yn dilyn trafodaeth buan gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Pennaeth Addysg, penderfynodd yr Ymchwiliad ganolbwyntio, yn gyntaf, ar y prif ffynonellau o wasanaethau cefnogol sydd ar gael i ysgolion. Arweiniodd hyn at ganolbwyntio sylw ar wasanaethau GwE a Cynnal a gwasanaethau Cefnogol yr Awdurdod Addysg ei hun.

3.2 Cyfarfu'r Ymchwiliad ac saith / wyth achlysur, yn ogystal â chyfres o ymweliadau y sonnir amdanynt ym mharagraff 3.4 isod. Roedd hyn yn cynnwys sawl trafodaeth gyda'r Aelod Cabinet Addysg, y Pennaeth Addysg

ac uwch reolwyr a rheolwyr perthnasol. Yn ogystal, cyfrannodd rheolwyr o'r Gwasanaeth Addysg ac adrannau eraill at waith yr Ymchwiliad trwy drafod yn agored gyda swyddogion arweiniol a chefnogol yr Ymchwiliad.

3.3 Cyflawnodd yr Ymchwiliad waith ymchwil i weld beth oedd patrymau mewn siroedd eraill gan ystyried a ellid dysgu gwersi allai wella'r ddarpariaeth o fewn y sir. Golygodd hyn gysylltu â'r 22 awdurdod addysg yng Nghymru i holi am eu trefniadau ar gyfer gwasanaethau Cefnogol. Derbyniwyd 12 o ymatebion i'r ymholiadau hynny.

3.4 Ond calon gwaith yr Ymchwiliad oedd cyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng aelodau'r Ymchwiliad a phenaethiaid ysgolion amrywiol ar draws y sir. Cynhaliwyd y trafodaethau hynny mewn 17 o ysgolion gwahanol. Roedd 6 ohonynt yn ysgolion uwchradd a'r gweddill yn ysgolion cynradd. Roeddent yn amrywio o ran pa gategori yr oeddent wedi eu gosod gan yr Awdurdod - coch, ambr, melyn neu wyrdd.

3.5 Diben yr ymweliadau hynny oedd deall a sefydlu beth oedd profiad penaethiaid ac athrawon ar lawr gwlad am natur ac effeithlonrwydd y gefnogaeth yr oeddent yn eu derbyn gan GwE, Cynnal a'r Awdurdod Addysg ei hun.

3.6 Mae'r taflenni a ddefnyddiwyd fel sbardun i'r trafodaethau yn y cyfarfodydd hynny wedi eu atodi fel Atodiad 1 o'r ddogfen hon. Mae Atodiad 2 wedyn yn crynhoi'r prif negeseuon a oedd yn dod o'r holl gyfweliadau hynny. Arweiniodd hynny wedyn at gasgliadau cychwynol ac yna gwaith pellach gan yr Ymchwiliad.

3.7 Barn yr Ymchwiliad oedd mai'r prif elfen oedd yn galw am sylw pellach oedd gwaith Cynnal a cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda Phrif Weithredwr newydd Cynnal, yr Uwch Reolwr sydd â chyfrifoldeb am Uned Technoleg Gwybodaeth Canolog y Cyngor a'r Uwch Reolwr Ysgolion. Mae Atodiad 3 yn nodi'r llinell gwestiynau a gafodd ei awgrymu ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

3.8 Yn ogystal â rhoi sylw i'r tair prif ffynhonell o wasanaethau cefnogol, edrychodd yr Ymchwiliad hefyd ar y canlynol:-
a) Datblygiad Diweddar y Swyddfeydd Ardal (gweler 3.9 isod)
b) Darpariaeth Hwb a Hwb+ fel adnodd i gefnogi addysgu (gweler 3.10 isod)
c) Y trefniadau ar gyfer darparu athrawon llanw (gweler 3.11 isod)

3.9 Yn ystod gwaith yr Ymchwiliad, fe benderfynodd yr Adran Addysg newid peth o'i drefniadau ar gyfer cefnogi gwaith yn yr ysgolion trwy gyflwyno, am gyfnod o amser, drefniadau swyddfeydd ardal. Bu'r Adran Addysg yn ymgynghori gyda'r Ymchwiliad am y math o wasanaethau cefnogol a ddylai gael eu darparu o swyddfeydd ardal wrth i'r drefn gael ei sefydlu.

3.10 Yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion, daeth yr aelodau i wybod mwy am ddarpariaeth Hwb a Hwb+ sydd yn ddarpariaeth sy'n cynnig, ymysg llawer o bethau eraill, fynediad hwylus at adnoddau dysgu sydd eisoes yn bodoli, adnodd sydd ar gael i leihau baich gwaith y tu allan i'r dosbarth i athrawon.

Gofynodd yr Ymchwiliad am gyflwyniad pellach ar Hwb a Hwb+ i asesu'r cyfraniad y gallai hwnnw ei wneud tuag at leihau baich yn y rheng flaen

3.11 Mater arall y bu'r Ymchwiliad yn ei ystyried oedd y gufundrefn ar gyfer darparu athrawon llanw. Mae'r gyfundrefn bresennol yn ddrud i'r Awdurdod Addysg a'r ysgolion. Yn sgil y wasgfa bresennol ar gyllidebau a'r ffaith bod rhai cynghorau yn arbrofi â dulliau newydd o gyflenwi athrawon llanw, penderfynodd yr Ymchwiliad holi cwestiynau am y ddarpariaeth bresennol ac edrych os oedd unrhyw ddewisiadau realistig eraill ar gyfer cyfarfod â'r angen.

3.12 Nodir prif ganfyddiadau'r Ymchwiliad isod gyda nodyn o'r dystiolaeth y tu cefn i'r canfyddiad hwnnw ac wedyn yr argymhelliad a wna'r Ymchwiliad yn ei ddilyn.

## 4 Prif Ganfyddiadau'r Ymchwiliad

GwE

4.1 Mae perthynas yr Awdurdod Addysg gyda GwE yn gymhleth. Fel mae'n digwydd, Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Arweiniol GwE ond, mewn gwirionedd, mae perthynas y Cyngor gyda GwE yr un peth â pherthynas pob Awdurdod Addysg arall. Mae hyn yn golygu bod gan y Cyngor sedd ar Gyd-bwyllgor GwE. Yn sgil hynny, mae'r Awdurdod yn cael mewnbwn i Gynllun Busnes GwE ac, yn benodol, i'r cynnig o ddarpariaeth y mae GwE yn ei osod gerbron yr Awdurdodau Addysg unigol. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod wedyn yn medru comisiynu gwaith penodol ar gyfer y sir ar sail ei asesiad o anghenion penodol Gwynedd.

4.2 Mewn theori felly, mae'r gyfundrefn yn ei le ar gyfer sicrhau, ar y naill law, ddylanwad Awdurdod Addysg Gwynedd ar raglen generig GwE ar gyfer Gogledd Cymru i gyd ac, ar y llaw arall, gomisiwn clir gan yr Awdutrdod am yr elfennau hynny sydd angen sylw penodol o fewn y sir. Fodd bynnag, nid yw effeithlonrwydd y trefniadau hynny yn amlwg nac yn hysbys ac mae hyn, felly, yn faes sydd yn teilyngu sylw craffu penodol i'r dyfodol. (Gweler Argymhelliad 5.1 isod)

4.4 Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan GwE yn fuddsoddiad sylweddol. Costiodd y gwasanaethau hynny £640,496 i'r Awdurdod Addysg ym mlwyddyn gyllidol 2017/18. Ar adeg pan y mae adnoddau mor brin, rhaid i'r Cyngor sicrhau a bodloni ei hun am werth am arian ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth hynny.

Cynnal

4.5 Roedd yn amlwg o'r trafodaethau o fewn yr Ymchwiliad ac, yn benodol, o'r trafodaethau gyda'r ysgolion, bod angen sylw penodol i wasanaethau Cynnal sydd yn cael eu rheoli trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. (Gweler y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2017/18 yn Atodiad 4). Wrth wneud hynny, roedd yn bwysig cofio y sefydlwyd Cynnal yn wreiddiol i ddarparu gwasanaethau ymgynghorol a chefnogaeth Technoleg Gwybodaeth ar draws Gwynedd a

Môn ond bellach, bod y gwasanaethau ymgynghorol yn gyfrifoldeb Gogledd Cymru gyfan ar GwE.

4.6 Roedd yn briodol felly bod yr Ymchwiliad yn gofyn a oedd model Cynnal ar ei ffurf bresennol yn fymryn o etifeddiaeth o strwythur wreiddiol Cynnal, cyn sefydlu GwE, a bod angen edrych a ellir cyfarfod â'r angen mewn ffordd wahanol yn awr ac i'r dyfodol.

4.7 Roedd yr ymchwil gydag awdurdodau addysg hefyd yn dangos amrywiaeth eang o strwythurau cefnogol (Gweler Atodiad 5). Derbyniwyd atebion amrywiol iawn a oedd yn amlygu hanes a diwylliant gwahanol yn yr ardaloedd gwahanol. Roedd hynny'n cynnwys siroedd lle darparwyd gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth gan uned fewnol i'r Cyngor, gyda'r adborth yn ganmoladwy. Prin oedd yr engreifftiau o gydweithio ar draws siroedd, fel sydd yn digwydd gyda Gwynedd a Môn (trwy Cynnal). Fodd bynnag, mae lle i edrych ymhellach am ymarfer da o ran darparu cefnogaeth i ysgolion ac, yn benodol, gyda golwg ar fod yn flaengar o ran y math o gymorth sydd yn cael ei gynnig i ysgolion i sicrhau bod ysgolion y sir ar flaen y gâd o ran manteisio ar dechnoleg i gynorthwyo addysgu o ansawdd.

4.8 Bu'r Ymchwiliad yn edrych, yn sgil hyn ar y cydweithio rhwng Cynnal a'r Uned Technoleg Gwybodaeth fewnol a'r angen am eglurder am bwy sydd yn arwain ar agweddau penodol. Yn fras, mae'n rhaniad lle mae'r Uned Ganolog yn gyfrifol am yr is-adeiledd o ran y rhywdwaith a Cynnal yn gyfrifol wedyn am gefnogi'r caledwedd a meddalwedd y tu fewn i furiau'r ysgol. Fodd bynnag, fel sydd yn digwydd yn aml ym maes Technoleg, nid yw bob amser mor syml â hynny. O gael sicrwydd o gydweithio da, mae'n ymddangos nad oes angen newid strwythurol, allai gymryd adnoddau ac amser, ond rhaid sicrhau bod y cydweithio hynny'n digwydd.(Gweler Argymhelliad 5.2 isod)

4.9 Costiodd y gwasanaethau a ddarperir gan Cynnal £91,198 ym mlwyddyn gyllidol 2017/18 i Awdurdod Addysg Gwynedd a £437,444 i Ysgolion Gwynedd, felly mae'n fuddsoddiad arwyddocaol. Ar adeg o wasgfa ar adnoddau'r Cyngor, rhaid sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth hynny. Fodd bynnag, mae'n deg nodi bod yr incwm a ragwelir o siroedd eraill (gan Ysgolion ac Awdurdodau Addysg) y mae Cynnal yn ei ddenu oddeutu £466,000 am y flwyddyn gyllidol 2017/18 a felly yn fodd i sicrhau arbedion posib i Gwynedd a Môn o ran cost y ddarpariaeth.

<u>Gwasanaethau Cefnogol yr Awdurdod Addysg</u>

4.10 Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Awdurdod Addysg a'r ysgolion yn cynnig amrwyiaeth eang o wasanaethau sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor. Mae nifer o ysgolion y sir yn defnyddio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod i gyfarfod â'u hanghenion ac, yn gyffredinol, er bod sawl un yn medru pwyntio at engreifftiau o'r hyn a welir fel oedi, mae'n ymddangos bod y gwasanaethau yn lled foddhaol. Bydd yn bwysig bod y gwasanaethau hynny, fel pob gwasanaeth canolog arall yn dod o dan

chwyddwydr Ffordd Gwynedd er mwyn cynnig gwell effeithlonrwydd ac effeithioldeb wrth ddarparu’r gwasanaethau hynny.

Swyddfeydd Ardal

4.11 Ym Medi, 2016, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor sefydlu trefn o Swyddfeydd Ardal. Bwriad y penderfyniad oedd treialu trefn fyddai’n cymryd peth o’r baich gweinyddol a rheolaethol oddi ar ysgolion trwy ganoli’r cyfrifoldebau hynny mewn tair swyddfa ardal a, thrwy hynny, ryddhau penaethiaid i arwain yn eu hysgolion. Mae’n ddyddiau cynnar ar weithredu hyn ac, yn sgil ansefydlogrwydd staffio, nid yw’r gyfundrefn wedi bod yn llawn weithredol eto ac felly nid yw wedi cyflawni ei lawn botensial.

4.12 Fodd bynnag, mae cost ynghlwm a’r gyfundrefn (oddeutu £275,000 y flwyddyn am dair mlynedd) ac felly, mae’n allweddol bod trefniadau yn eu lle i asesu gwerth y trefniadau ar ol eu treialu gan arwain at benderfyniad buan wedyn ar ei ddyfodol.

Hwb a Hwb+

4.13 O dderbyn cyflwyniad ar ddarpariaeth Hwb a Hwb+, fe welodd yr Ymchwiliad ddau brif beth. Yn gyntaf, mae’r hyn sydd yn cael ei gynnig yn gallu bod yn werthfawr iawn gan fod Adnoddau ar Hwb sydd am arbed amser ac osgoi dyblygu gan athrawon. Ond, yn ail, mae’n gwbl amlwg o’r ystadegau a gyflwynwyd i’r Ymchwiliad bod y defnydd o waned/wneir ohonno yn amrywio yn sylweddol iawn:- o ysgolion sydd yn ei ddefnyddio fel prif gyfrwng ar gyfer cyfryngau ac adnoddau dysgu a rheoli gwaith plant i ysgolion sydd, i bob pwrpas, wedi penderfynu peidio ei ddefnyddio o gwbl.

4.14 Ar adeg o grebachu ariannol a phwysau mawr ar amser staff o fewn y dosbarth, mae’n bwysig bod ysgolion yn manteisio ar unrhyw gyfleon sydd ar gael i beidio ag “ail-ddyfeisio’r olwyn”. Mae lle amlwg felly i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg ysgolion o’r adnoddau a’r cymorth sydd ar gael ar Hwb a Hwb+. Credir fod lle hefyd i herio a gofyn cwestynau i ysgolion nad nad ydynt yn manteisio ar y ddarpariaeth gan fod hynny yn arwain at greu gwaith ychwanegol iddynt eu hunain.

Athrawon Llanw

4.15 Fel y nodwyd eisoes yn 3.11 uchod, mae’r gyfundrefn ar gyfer darparu athrawon llanw yn ddrud i’r Awdurdod Addysg a’r Ysgolion unigol. Mae hyn wedi bod yn destun trafod hefyd ar lefel genedlaethol lle mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod yr angen i gael trefn wahanol yn ei le, ac wedi comisiynu adolygiad a gwahodd cynigion am gynlluniau peiolot i dreialu trefniadau gwahanol.

4.16 Mae’r Ymchwiliad wedi clywed am brofiadau rhai Awdurdodau Addysg eraill yng Nghymru a thu hwnt sydd wedi arbrofi gydag allanoli’r gwasanaeth gan wneud arbedion ariannol. Er bod hynny’n ddeniadol iawn ar yr olwg gyntaf, mae’r Ymchwiliad hefyd wedi derbyn tystiolaeth am broblemau ansawdd gyda darpariaeth wedi ei allanoli a hefyd yn pryderu’n fawr iawn am y gallu i sicrhau bod gofynion Gwynedd a Môn o ran y gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddiogelu mewn unrhyw drefniant newydd. Mae’r

Ymchwiliad wedi nodi penderfyniad yr Awdurdod Addysg i beidio â chyflwyno cynnig i Lywodraeth Cymru er mwyn gweithredu cynllun clwstwr peilot oherwydd y problemau sydd wedi codi gan awdurdodau eraill hyd yma, ond bydd angen cadw llygad barcud ar y cynlluniau sy'n cael eu gweithredu ac asesu beth allai weithio yn sefyllfa benodol Gwynedd a Môn.

## 5 Argymhellion

### 5.1 Gwasanaethau GwE

**Canfyddiadau**

a) Mae patrwm a natur y gwasanaethau y mae GwE yn eu cynnig wedi datblygu ac aeddfedu ers dyddiau cynnar y sefydliad fel bod mwy o bwyslais erbyn hyn ar annog a chefnogi gwella. Mae'n ymddangos hefyd bod y berthynas rhwng ymgynghorwyr her ag ysgolion unigol yn datblygu yn dda er, nid yw hynny yn wir ym mhob achos.
b) Mae'r model ar gyfer dod i gytundeb am y gwasanaethau a ddarperir (Awdurdodau Addysg yn comisiynu a GwE yn darparu) yn syml mewn theori ond nid yw yn eglur weithredol i bawb.
c) Mae'n eithriadol o bwysig sicrhau bod yr hyn a ddarperir gan GwE yn cyfarfod ag anghenion addysgol y sir a bod y trefniadau comisiynu yn adnabod a chyfleu'r anghenion hynny

**Tystiolaeth**

- Cynnwys cyfweliadau gyda phenaethiaid ysgol am y berthynas efo GwE
- Gwybodaeth ffeithiol am natur y cytundeb rhwng yr Awdurdodau Addysg unigol â GwE ynghyd â chost y ddarpariaeth hynny.

| **Argymhellion i'r Aelod Cabinet** |
|---|
| Argymhellir bod yr Aelod Cabinet:-<br>a) yn sefydlu eglurder yn nhrafodaethau GwE, tra bod deialog gyda GwE am y gofynion yn bwysig, y dylid rhoi blaenoriaeth clir i gyfarfod anghenion addysgol yr Awdurdodau Addysg sy'n comisynu, er mwyn sicrhau defnydd priodol o'r hyn sy'n adnodd drud y mae'r Awdurdodau Addysg yn talu amdano<br>b) Yn adrodd yn fuan i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y model ar gyfer comisiynu gwasanaethau GwE ac, yn allweddol, ar gynnwys drafft y comisiwn gan Awdurdod Addysg Gwynedd i GwE ar gyfer y cyfnod nesaf |

### 5.2 Cynnal

**Canfyddiadau**

a) Er bod model Cwmni Cynnal yn un a gafodd ei sefydlu mewn cyd-destun gwahanol iawn (o ran y math o wasanaethau a ddarparwyd), mae'r model yn dal yn synhwyrol i'r graddau, pe na byddai'n bod, y byddai'n synhwyrol sefydlu rhywbeth o'r fath gan ei fod yn:-

- medru rhoi sylw penodol i anghenion cefnogi a datblygu Technoleg Gwybodaeth ysgolion
- sicrhau datblygu a rhannu arbenigedd ar draws dwy sir gan sicrhau rhywfaint o arbedion maint a lleihau costau yn sgil hynny
- denu incwm o siroedd eraill sydd yn lleihau costau craidd y gwasanaethau i'r ddwy sir sy'n berchen ar y cwmni

b) Mae lle i Cynnal fod yn fwy blaengar eto o ran y pecynnau cymorth a systemau sydd yn cael eu cynnig i'r ysgolion er mwyn cefnogi a datblygu'r addysgu ar lawr y dosbarth

c) Mae lle i gryfhau'r cyd-ddeall a chyd-weithio rhwng Cynnal â'r Uned Technoleg Gwybodaeth ganolog o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o ran cyfrifoldebau y naill a'r llall, cyd-ddatblygu atebion i anghenion ysgolion ac edrych am gyfleon i leihau costau, gyda'r Swyddfa Addysg Ganolog yn cyd-gordio'r trafodaethau hyn

**Tystiolaeth**

- Cynnwys cyfweliadau gyda phenaethiaid ysgol am y berthynas efo Cynnal
- Trafodaethau dwys gyda Phrif Weithredwr Cynnal, yr Uwch Reolwr sydd â chyfrifoldeb am Uned Technoleg Gwybodaeth Canolog y Cyngor a'r Uwch Reolwr Ysgolion

| |
|---|
| **Argymhellion i'r Aelod Cabinet –**<br>a) Er y byddai modd ystyried newidiadau strwythurol i geisio lleihau costau, ni ddylai wneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd nes bod argymhelliad b) isod wedi ei weithredu a chael cyfle i ddwy ffrwyth<br>b) ei fod yn cyfarwyddo Swyddfa Ganolog yr Adran Addysg i gynnull trafodaethau rheolaidd gyda Phrif Weithredwr Cynnal a'r Uwch Reolwr sydd â chyfrifoldeb am Uned Technoleg Gwybodaeth Canolog i greu strategaeth sy'n seiliedig ar chwilio am gyfleon i wella cyd-weithio, canfod arbedion a datblygu'r gwasanaeth a gynnigir i ysgolion<br>c) ei fod yn gofyn i Brif Weithredwr Cynnal adrodd yn rheolaidd ar ddatblygiadau arloesol i gefnogi addysgu ar lawr y dosbarth |

## 5.3 Gwasanaethau'r Awdurdod

**Canfyddiadau**

a) Mae'r mwyafrif llethol o ysgolion yn gyffredinol yn fodlon â'r gwasanaethau a gynnigir o dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod ac ychydig iawn o bosibiliadau eraill sydd ar gael ar gyfer cael mynediad at y gwasanaethau hynny p'run bynnag

b) Mae holl wasanaethau mewnol y Cyngor, yn eu tro, yn dilyn trefn Ffordd Gwynedd o herio yr hyn y maent yn ei wneud.

**Tystiolaeth**

- Cynnwys cyfweliadau gyda phenaethiaid ysgol am weithrediad y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod

- Gwybodaeth am y cyfrifoldeb ar holl adrannau'r Cyngor i sefydlu rhaglen i edrych yn feirniadol ar eu holl drefniadau trwy ddull "Ffordd Gwynedd"

| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet** |
| --- |
| Peidio â chynnig unrhyw newidiadau i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth sydd yn cael eu cynnig i ysgolion ar hyn o bryd, ond disgwyl i weld pa welliannau / gostyngiadau cost y bydd gwaith adolygu gwasanaethau mewnol y Cyngor yn ei gynhyrchu i ysgolion |

### 5.4 Swyddfeydd Ardal

**Canfyddiadau**

a) Mae rhesymeg amlwg a chadarn y tu ôl i'r syniad o sefydlu Swyddfeydd Ardal i ganoli cyfrifoldebau a, thrwy hynny, ryddhau penaethiaid i arwain yn eu hysgolion

b) Mae'r drefn yn un newydd sydd â chost iddi, ond nid yw eto wedi cael cyfle i wireddu ei botensial

**Tystiolaeth**

- Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd ym Medi 2016 ar y ddadl dros sefydlu trefn Swyddfeydd Ardal a chost hynny dros dro
- Cynnwys cyfweliadau unigol gyda phenaethiaid ysgol am yr angen i leihau rhai beichiau gweinyddol a rheolaethol ar ysgolion
- Trafodaethau mewn cyfarfod penodol o'r Ymchwiliad i edrych ar y dewisiadau o ran materion y gellid eu canoli mewn Swyddfeydd Ardal

| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet** |
| --- |
| Ei fod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar ddechrau 2018/19 i asesu'r dystiolaeth o lwyddiant y treial o ran lleihau beichiau ar ysgolion gydag argymhelliad wedyn i Gabinet y Cyngor a ddylai'r drefn barhau ac, os yw, sut y bwriedir ei ariannu o fewn y gyllideb addysg |

### 5.5 Hwb a Hwb+

**Canfyddiadau**

a) Mae Hwb a Hwb+, ar ôl dechrau ansicr, bellach wedi datblygu yn adnodd allai fod yn ddefnyddiol iawn i ysgolion pe byddai yn cael ei berchnogi a'i ddefnyddio i'w lawn botensial

b) Mae amrywiaeth mawr yn y defnydd a wneir o'r adnodd gan ysgolion gyda nifer sylweddol o ysgolion yn gwneud prin unrhyw ddefnydd ohonno o gwbl gan olygu y gallai rhai elfennau o waith fod yn cael eu dyblygu a'u hail-ddyfeisio yn ddi-angen

**Tystiolaeth**

- Cyflwyniad ar ddarpariaeth Hwb a Hwb+ i'r Ymchwiliad

- Cynnwys cyfweliadau unigol gyda phenaethiaid ysgol am y defnydd a nweir gan Ysgolion o ddarpariaeth Hwb a Hwb+
- Tystiolaeth ysgrifenedig am y nifer o ysgolion sydd yn gwneud defnydd o'r adnodd ac i beth

| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**<br>Ei fod yn gofyn i swyddogioin yr Awdurdod Addysg, mewn cydweithrediad â Cynnal, i gynnal ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth am yr hyn y gall Hwb+ ei gyfrannu i leihau beichiau ar ysgolion, gan gynnwys cwestiynu ysgolion sydd yn gwneud defnydd prin, neu ddim o gwbl, ohonno. |
|---|

## 5.6 Athrawon Llanw

**Canfyddiadau**

a) Mae cost y gyfundrefn athrawon llanw i'r Awdurdod Addysg a'r ysgolion yn sylweddol ac mae cyfle damcaniaethol i wneud arbedion sylweddol iawn yn sgil hynny
b) Mae'n ymddangos bod ymdrechion mewn ardaloedd eraill i ganfod ffyrdd eraill o gyflenwi'r gwasanaeth, trwy allanoli i asiantaeth allanol, wedi amlygu risgiau o ran sicrhau cyflenwad addas o athrawon llanw, yn benodol, y cyflenwad o athrawon i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg
c) Mae asesiad cychwynnol o wahoddiad Llywodraeth Cymru am gynlluniau arbrofol yn y maes yn cynnig y posibilrwydd, ond nid sicrwydd, o ganfod ateb allai fod yn addas ar gyfer sefyllfa leol Gwynedd a Môn

**Tystiolaeth**

- Gwybodaeth ffeithiol a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad am y trefniadau presennol a chost y ddarpariaeth
- Dogfen gan Lywodraeth Cymru yn gwahodd cynigion arloesol i'w treialu er mwyn cyflenwi athrawon llanw

| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**<br>Ei fod yn cydnabod bod yn rhaid edrych o'r newydd ar y gyfundrefn athrawon llanw presennol ac yn cadw llygad barcud ar gynlluniau arloesol a ddaw allan o wahoddiad Llywodraeth Cymru am gynlluniau arloesol er mwyn gweld a ellir datblygu datrusiad sydd yn addas i anghenion Gwynedd a Môn |
|---|

ATODIAD 1

**YMCHWILIAD CRAFFU – GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG**

**CWESTIYNAU AR GYFER YMWELIADAU YSGOL**

**Gwasanaeth GwE:**

1. A yw'r gwasanaeth a dderbynnir gan GwE yn dderbyniol? Os na, pam?
2. A oes cydbwysedd rhwng cynnal ysgolion a herio – A yw rôl gefnogol Gwe yn drwyadl ac amserol ac yn cefnogi gwelliant yn yr ysgol?
3. Beth yw eich barn am y model ysgol-i-ysgol?
4. A yw'r ysgol yn derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol?
5. Ym mha ffordd y gellir gwella ar y gwasanaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael?

**Gwasanaeth CYNNAL**

1. A yw'r gwasanaeth a dderbynnir gan CYNNAL yn dderbyniol?
2. Pa mor sydyn y byddent yn ymateb i broblemau / ymholiadau?
3. Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth o safbwynt sustemau newydd arloesol? (A ydynt ar flaen y gad yn hyn o beth?)
4. Ym mha ffordd y gellir gwella ar y gwasanaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael?

**Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod:**

1. A ydych yn teimlo bod yr ysgol yn cael gwerth am arian o'r gwasanaeth a dderbynnir drwy'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod?
2. Pa ystod o wasanaethau y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio?
3. Beth yw eich barn am ansawdd y gwasanaeth a dderbynnir?
4. Ym mha ffordd y gellir gwella ar y gwasanaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael?

ATODIAD 2

**YMCHWILIAD CRAFFU – GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG**

**CASGLIADAU CYCHWYNOL O'R YMWELIADAU YSGOL**

**a. <u>GwE</u>**

- Cost – er bod gwell dealltwriaeth o'r elfen gomisiynu gofynnir a dderbynnir gwerth am arian ac a oes angen eu prisio lawr? (Fel sylw mae hyn yn fater i'w drafod bellach yn y Pwyllgor Craffu, wrth i'r Pwyllgor ystyried yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei gomisiynu gan GwE ac effeithlonrwydd y gwaith sy'n codi o'r comisiwn hynny)
- Angen sicrhau nad yw ysgolion gwyrdd yn cael eu hanwybyddu (Mae hyn wedi ei godi eisoes mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu – yr ateb a roddwyd oedd bod pob ysgol yn cael sylw ac arwyddion cynnar o unrhyw broblemau yn cael sylw buan)
- Angen ystyried y model ysgol i ysgol e.e. cydweithio gydag ysgolion cyffelyb mewn siroedd eraill i osgoi cystadlu rhwng ysgolion cyfagos ac o'r un ardal (Mae hyn yn amlwg yn fodel sydd â llawer o botensial ond llawer o risgiau hefyd o ran ysgolion yn cynorthwyo eu gilydd ond hefyd risg i'r ysgolion cryfaf o ran colli adnoddau ac arbenigedd)

**b. <u>Cynnal</u>**

- Angen adolygu'r gwasanaeth a gynigir gan CYNNAL (Roedd cryn amrywiaeth barn ymysg penaethiaid ynglyn ag effeithlonrwydd Gwasanaeth Cynnal. Roedd teimlad hefyd bod Cynnal ar ei ffurf bresennol yn fymryn o etifeddiaeth o strwythur gwreiddiol Cynnal, cyn sefydlu GwE, a bod angen edrych a ellir cyfarfod â'r angen mewn ffordd wahanol .
- Dysgu o brofiadau ardaloedd eraill (Cysylltwyd â holl siroedd eraill Cymru i geisio gwybodaeth am eu strwythurau cefnogol. Derbyniwyd 12 o atebion amrywiol iawn. Cyfeiriwyd at ymateb siroedd Caerfyrddin a Cheredigion sydd, ymysg eraill, yn darparu gwasanaeth TG yn fewnol gyda'r adborth yn ganmoladwy. Prin ydoedd sylwadau ar gyfer cydweithio heblaw gan awdurdodau Castell-nedd a Phort Talbot. Nodwyd bod lle i edrych ymhellach am ymarfer da gan awdurdodau Cymru o'u darpariaethau eraill anuniongyrchol i ysgolion.
- Dadansoddiad o'r gost. (Ceisiwyd gwybodaeth am gostau Cynnal)

**c. <u>Gwasanaethau'r Awdurdod</u>**

- Gofyn i'r Adran Addysg drafod mewn manylder gyda'r Ymchwiliad y model ar gyfer y Swyddfeydd Ardal. (Cafwyd trafodaeth ar hyn a mynegodd yr Ymchwiliad farn am y gwasanaethau mwyaf priodol i'w cefnogi o'r Swyddfeydd ardal)
- Ystyried trefniadau'r CLG – angen pwynt cyswllt i wasanaethau penodol e.e. cynnal adeiladau (Mae hwn yn fater i gadw llygad arno wrth fonitro datblygiad y Swyddfeydd Ardal i'r dyfodol)

- Arweiniad cyllidol – rhagamcan o’r gyllideb am 3 blynedd. (Mae hyn yn fater i’w drafod gyda’r Adran Addysg ond mae’n ymddangos, ar hyn o bryd, y gall fod yn anodd gwarantu hyn oherwydd natur setliadau ariannol blynyddol y Cyngor ei hun)

ATODIAD 3

**YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG**
**CRAFFU CYNNAL**

Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau:-

## 1. Model Busnes Cynnal

- Disgrifiwch yr hyn y mae Cynnal yn eu wneud ac yn ei gynnig i ysgolion? Faint o ysgolion sydd yn defnyddio agweddau gwahanol o gynnig Cynnal a faint sydd yn mynd i lefydd eraill i chwilio am wasanaethau.

- Disgrifiwch y model busnes yr ydych wedi ei etifeddu a beth ydych yn meddwl sydd angen ei newid neu ei wella

- A yw'r Awdurdod yn hapus â chynnwys y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chwmni Cynnal ar hyn o bryd ac a yw yn teimlo bod hynny'n cynnig gwerth am arian i'r Awdurdod?

- Beth yw effaith denu incwm o siroedd eraill i gyllideb Cynnal? A yw o gymorth i ddarparu gwasanaethau yn y sir?

- Beth am gostau craidd / canolog Cynnal – Beth yw graddfa y costau hynny ac a ydynt yn rhesymol o ddeall beth yw maint y corff?

- Pa newidiadau sydd wedi bod yng nghyllideb Cynnal dros y 2/3 blynedd diwethaf – ar adeg pan y mae cyllidebau yn cyffredinol wedi bod o dan wasgfa?

- Pe byddai'r Cyngor yn edrych ar fodel gwahanol ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn, beth fyddai'r opsiynau fyddai'n agored i'r Cyngor a beth fyddai manteision ac anfanteision hynny?

## 2. Gwaith Datblygol / Arloesol

- Beth yw trefniadau Cynnal ar gyfer sicrhau eu bod ar flaen y gâd o ran datblygiadau arloesol all gefnogi'r ysgolion?

- Beth yw'r "gystadleuaeth" o ran cynnig datrusiadau Technoleg Gwybodaeth arloesol i ysgolion – Beth yw cost a natur y gwasanaethau hynny?

- A fedrwch chi roi engraifft o ddatblygiad arloesol y mae Cynnal wedi ei hybu mewn ysgolion yn y 2/3 blynedd diwethaf?

## 3. Cefnogaeth Is-adeiledd a chydweithio rhwng Cynnal â TG Canolog

- Beth yw'r rhaniad cyfrifoldebau rhwng Cynnal â'r Uned Technoleg Gwybodaeth Ganolog o ran cefnogi'r rhwydwaith i ysgolion?

- A yw’r rhaniad hynny’n gwbl eglur neu a oes achosion yn codi lle mae gwahaniaeth barn ar pwy sydd yn gyrfifol am beth? Lle mae’r mannau ansicr hynny os ydynt yn bodoli a sut mae materion yn cael eu datrys? Efo pwy mae ysgol yn cysylltu gyntaf a beth sy’n digwydd os yw yn dod I’r amlwg mai problem i’r corff arall yw hwnnw?

Cefnogi Addysg
Mewn Ysgolion
Supporting Education
in Schools

## Cytundeb Lefel Gwasanaeth

# Awdurdodau Addysg

2017-2018



**Cefnogi TGCh mewn ysgolion**

Gwerthu
Trwsio
Cefnogaeth
Ymgynghoriad TGCh

# CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH 2017/2018 (Awdurdodau Addysg)

## 1. Cefnogaeth Dechnegol

1.1 Cefnogaeth dechnegol i unedau heblaw ysgolion a chanolfannau eraill

1.2 Cefnogaeth dechnegol i'r fileserver SIMS cynradd

1.3 Cefnogaeth dechnegol i'r rhaglen SIMS.net a arsefydlwyd ar beiriannau ysgolion

## 2. Cefnogaeth SIMS a Systemau Gwybodaeth Rheolaethol Arall

2.1 Cefnogi'r defnydd o feddalwedd SIMS a phecynnau MIS eraill yn y Swyddfa Fro / Uned Gefnogol

2.2 Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o SIMS, a rhaglenni MIS eraill yn yr ysgolion cynradd / arbennig

2.3 Patrymlun Hunan Arfarnu / Holiaduron Ar-lein – unedau heblaw ysgolion

## 3. Dadansoddi a Chynhyrchu Data *

3.1 Darparu gwybodaeth / data cymharol i'r Awdurdod yn seiliedig ar gronfeydd data'r ysgolion

3.2 Darparu gwybodaeth / data i staff Consortiwm Addysg ôl-16 (ar ran yr Awdurdod Addysg)

(* 1 Ebrill 2017 tan 30 Medi 2017)

# Sgediwl Taliadau 2017 / 18

| | Môn | Gwynedd |
|---|---|---|
| Cefnogaeth Dechnegol | 4,769 | 10,847 |
| Cefnogaeth SIMS a Systemau Gwybodaeth Rheolaethol Arall | 51,175 | 78,992 |
| Dadansoddi a Chynhyrchu Data | 1,360 | 1,360 |
| **CYFANSWM 2017 / 18 :** | **57,304** | **91,198** |

# 1. Cefnogaeth Dechnegol

| | GWASANAETH | LEFEL Y GWASANAETH |
|---|---|---|
| 1.1 | **Gwasanaeth trwsio, cynnal a chadw i unedau heblaw ysgolion** | Cefnogaeth dechnegol i unedau a leolir mewn ysgolion (megis Unedau Iaith, Hwyr Ddyfodiaid) neu unedau ADY na leolir mewn ysgolion. Bydd y gwasanaethau canlynol ar gael i'r unedau :<br><br>• Gwasanaeth llinell gymorth<br>• Dylunio topoleg rhwydweithiau addas<br>• Cynnal a chadw gwaith ceblo / rhwydweithiau<br>• Arsefydlu, cefnogi a monitro gweithrediad system fileservers<br>• Gweithredu ar gynlluniau i gyflwyno datblygiadau newydd<br>• Gwasanaeth arsefydlu cyfrifiaduron / offer perifferal<br>• Cynnal a chadw, trwsio ac atgyweirio cyfrifiaduron<br>• Cynnal a chadw, trwsio ac atgyweirio offer perifferal<br>• Datrys problemau meddalwedd Microsoft Windows/Office/F-Secure<br>• Gwaredu offer cyfrifiadurol a perifferal<br>• Sicrhau cyswllt i fileservers canolog y Sir<br>• Cefnogaeth estynedig cyn-Arolwg<br>• Cydlynu a monitro trefniadau diogelwch data/systemau<br>• Sefydlu a monitro trefniadau copi-wrth-gefn<br>• Ymgynghoriad ac arweiniad ar ddatblygiad systemau cyfrifiadurol<br>• Cynllun Adnewyddu Bylbiau Taflunwyr |
| 1.2 | **Cefnogaeth dechnegol i'r fileserver a'r system SIMS sirol** | Pwrcasu. rheoli, gweinyddu a chefnogi'r fileserver canolog sy'n gweithrefu fel **'fileserver SIMS'** i'r sector addysg cynradd. Cefnogaeth i'r caledwedd ac i'r rhaglen SIMS / SQL / FMS a leolir ar y server SIMS Cynradd, drwy arsefydlu rhaglen SIMS.net, rhedeg uwchraddiadau tymhorol, arsefydlu patches ayyb. ***(Rhagwelir y bydd angen adnewyddu'r server yma bob ryw 5 mlynedd, ac fe gyllidir y gost adnewyddu drwy'r Cytundeb hwn – h.y rhannu'r gost dros 5 mlynedd.)***<br><br>Creu 'ysgolion' newydd ar y bas-data SIMS yn unol â rhaglen moderneiddio/ trefniadaeth ysgolion yr Awdurdod.<br><br>Gweinyddu a chynnal a chadw manylion defnyddwyr ar y server SIMS – gan gynnwys diogelwch y data yn seiliedig ar fanylion mewngofnodi a chyfrineiriau athrawon a staff eraill.<br><br>Sicrhau gweithdrefnau priodol i wneud copiau-wrth-gefn o'r data SIMS cynradd.<br><br>Cynorthwyo staff yr Awdurdod gyda phrosesau trosglwyddo data rhwng systemau SIMS ysgolion a CAPITA-ONE (B2B / WAV).<br><br>Monitro trosglwyddiad data o SIMS i HWB drwy'r rhaglen Connect Tool, ac adrodd am fethiannau i'r Swyddfeydd Ardal. |
| 1.3 | **Cefnogaeth dechnegol i'r rhaglen SIMS.net a leolir ar gyfrifiaduron ysgolion cynradd, canolfannau eraill a swyddogion yr Awdurdod** | Cefnogaeth dechnegol i'r rhaglen SIMS.net a rhaglenni MIS eraill (megis Civica, FMS, online Payments ayyb) a arsefydlwyd ar beiriannau ysgolion cynradd a swyddogion yr Awdurdod. *(Darperir y gwasanaeth cynnal a chadw'r cyfrifiaduron yr ysgolion fel rhan o'r CLG gydag ysgolion cynradd.)* |

| | | |
|---|---|---|
| | | Datrys problemau a rhedeg 3 uwchraddiad tymhorol SIMS.net a/neu FMS ar bob gweithfan SIMS, a dosbarthu 'patches' cywiro fel bo'r gofyn.<br><br>Cyfarfod â chost rhaglen mynediad o bell (CentraStage) ar gyfer pob cyfrifiadur sy'n rhedeg SIMS yn y sector gynradd, i fonitro eu perfformiad ac i hwyluso datrysiadau cyflym o broblemau ar beiriannau athrawon a staff gweinyddol. |

## 2. Cefnogi SIMS a Systemau Gwybodaeth Reolaethol Arall

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | **Cefnogaeth i ddefnyddwyr SIMS (staff canolog)** | Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o feddalwedd SIMS a phecynnau MIS eraill yn y Swyddfa Fro / Uned Gefnogol, gan gynnwys :<br><br>• Gwasanaeth llinell gymorth<br>• Cynhyrchu dogfennau a bwletinau i gefnogi'r defnydd o SIMS<br>• Cefnogi'r defnydd o'r meddalwedd a datrys problemau<br>• Cyrsiau hyfforddiant<br>• Cyngor ac ymgynghoriad ar ddefnyddio SIMS i bwrpasau rheolaethol<br>• Anwytho staff newydd<br>• Gweithredu fel pwynt cyswllt gydag asiantaethau / adrannau eraill (CAPITA, staff yr Adran Addysg, Uned Gyllid....) |
| 2.2 | **Cefnogaeth i ddefnyddwyr SIMS (ysgolion cynradd)** | Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o feddalwedd SIMS a rhaglenni MIS eraill yn yr ysgolion cynradd / arbennig.<br><br>Trefnu a chynnal gweithdai tymhorol i godi ymwybyddiaeth ysgolion o botensial y rhaglen SIMS. Rhaeadru enghreifftiau o arfer dda mewn ysgolion.<br><br>Sicrhau bod staff yr Uned Cefnogi SIMS yn :<br>• ymateb i broblemau oherwydd nam yn y meddalwedd<br>• cynnig cyngor ac arweiniad i ysgolion sut i ddefnyddio'r meddalwedd<br>• cynnig arweiniad a chydweithio gydag ysgolion sy'n dymuno uchafu'r defnydd o SIMS drwy'r ysgol<br>• teilwrio meddalwedd SIMS i gynnig datrysiadau i weithdrefnau rheolaethol mewn ysgolion.<br><br>Cefnogir rhaglenni megis SIMS.net, SIMS Discover, Dinner Money, IEP Writer, SchoolComms, Private Fund Manager, CyfnewidCymru, aayb, |
| 2.3 | **Patrymlun Hunan Arfarnu & Holiaduron Ar-lein – unedau heblaw ysgolion** | Mynediad i'r Unedau Iaith, Unedau ADY ayyb at :<br><br>System Hunan Arfarnu Ar-lein, sy'n eu galluogi i fewnbynnu sylwadau a choladu tystiolaeth fel rhan o broses Hunan Arfarniadau Estyn. Mae'r system yn caniatáu uwchlwytho arfarniadau i Ystafell Rithiol ESTYN.<br><br>System Holiaduron Canfod Barn i gefnogi'r broses Hunan-Arfarnu. Bydd pecyn sylfaenol o holiaduron ar gael, sy'n cynnwys – |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Rhieni - opsiwn o ffocysu ar feysydd penodol, yn cynnwys treialu holiadur Estyn<br>• Disgyblion - fesul oedran, neu yn ffocysu ar feysydd penodol e.e. gwaith cartref, bwlio, lles, treialu holiadur Estyn ayyb<br>• Partneriaid allweddol a rhanddeiliaid perthnasol<br>• Staff<br><br>Gellir creu holiaduron unigryw yn ogystal, i adlewyrchu gofynion y sefydliad.<br><br>Bydd CYNNAL yn paratoi enwau defnyddwyr a chyfrineiriau fel yr angen. Ar derfyn y cyfnod mewnbynnu barn, dadansoddir yr ymatebion ar ffurf taenlen Excel, fydd hefyd yn cynnwys adborth ar ffurf tablau a graffiau. |

## 3. DADANSODDI A CHYNHYRCHU DATA (o 1 EBRILL 2017 TAN 30 MEDI 2017)

| | GWASANAETH | LEFEL Y GWASANAETH |
|---|---|---|
| 3.1 | **Darparu gwybodaeth / data cymharol i'r Awdurdod** | **Darparu gwybodaeth / data cymharol i'r Awdurdod yn seiliedig ar gronfeydd** data'r ysgolion (e.e. darparu data cyn-Arolwg, manylion am grwpiau o ddisgyblion bregus ayyb).<br><br>• Casglu data Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3, CA4 a CA5 ar lefel disgybl drwy DEWi (neu gan yr ysgolion yn achos CA4)<br>• Sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn manylion y canlyniadau sydd ar gael ar ddyddiau canlyniadau CA4 a CA5<br>• Dadansoddi ar sail cyrhaeddiad yn y pynciau craidd, - ar lefel CYNNAL, awdurdod ac ysgol ac yn ôl grwpiau PYD, maint ysgol, ieithyddol, a phlant bregus,<br>• Adrodd ar chwarteli ysgolion<br>• Dadansoddi cyrhaeddiad yn y pynciau sylfaen yn CA3 a'r holl bynciau dewisol yn CA4,<br>• Adrodd y dadansoddi CA1 – CA3 drwy wefan Cynhaliaeth.NET erbyn diwedd tymor yr haf<br>• Adrodd ar CA4 erbyn yr wythnos gyntaf ym Medi,<br>• Ymateb i geisiadau am ddadansoddiadau ar grwpiau penodol ym mhob cyfnod allweddol sydd yn amrywio o ran cynnwys ac amseriad, e.e. disgyblion y canolfannau iaith, plant mewn gofal, cinio am ddim, teithwyr, anghenion dysgu ychwanegol ayyb.<br><br>Cynnal a chadw systemau rheolaethol ar-lein i ddadansoddi canlyniadau ysgolion a gosod targedau i ysgolion. |
| 3.2 | **Darparu data cymharol** | Darparu gwybodaeth i staff Consortiwm Addysg ôl-16 (ar ran yr Awdurdod Addysg) am ddata ysgolion unigol. |

# CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

**rhwng Adran Addysg Cyngor Gwynedd a CYNNAL**

**Cost Cytundeb 2017-18**

| **CONTRACTAU CYFARWYDDWYR ADDYSG** | **Cost yn cynnwys gostyngiad 2%** |
|---|---|
| Cefnogaeth Dechnegol | 10,847 |
| Cefnogi SIMS a Systemau Gwybodaeth Rheolaethol | 78,992 |
| Dadansoddi a Chynhyrchu Data | 1,360 |
| | **91,198** |

*Gwilym Elis Jones*
Arwyddwyd (ar ran CYNNAL)

[signature]
Arwyddwyd (ar ran Cyngor Gwynedd)

*13.02.17*
Dyddiedig

23/3/17
Dyddiedig

ATODIAD 5

## YMCHWILIAD CRAFFU – GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG

## CWESTIYNAU AR GYFER AWDURDODAU ADDYSG ERAILL AM EU TREFNIADAU AR GYFER GWASANAETHAU CEFNOGOL

Mae grwp o aelodau o Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwiliad craffu i fewn i Wasanaethau Cefnogol Addysg (Atodwyd copi o sgôp yr Ymchwiliad)

Un o'r meysydd y mae'r aelodau yn eu hystyried yw'r gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yng Ngwynedd a Mon gan Gwmni Cynnal. Mae hynny'n cynnwys cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth amrywiol, cefnogaeth systemau (fel SIMS) a datblygu adnoddau dysgu.

Mae'r aelodau yn awyddus i gael gwybod pa fath o fodelau eraill sydd yn cael eu defnyddio ar draws Awdurdodau Addysg Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath i weld a oes rhywbeth y medrwn ei ddysgu ac efallai ei newid o ran ein trefniadau lleol.

Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddech yn medru cymryd ychydig o amser i esbonio mewn e-bost ataf pa fodel yr ydych yn ei ddefnyddio i ddarparu'r math hynny o wasanaethau yn eich ardal chi, a ydych yn hapus gyda'r hyn y mae hynny'n ei gynhyrchu ac a oes yna unrhyw fwriad ganddynt i adolygu hynny.

Os oes rhywbeth diddorol ac arloesol yn eich trefniadau, efallai y byddai'r aelodau yn dymuno eich holi ymhellach amdano.